

**Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C**  
19 Medi 2013, Gwesty'r Vale, Hensol

**Cyfarfod Rhif 369**

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
	Glenda Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Rheon Tomos	(Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Garfield Lloyd Lewis	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Kathryn Morris	(Cyfarwyddwr Cyllid)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	David Bryant	(Pennaeth Datblygu Masnachol) (Eitem 4.8 yn unig)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Sarah-Jane Pritchard	(Cynorthwy-ydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)

## **Sylwadau agoriadol**

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

### **1. Datganiad o ddiddordeb**

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Nodwyd nifer o ddatganiadau o dan eitem 4 – Adleoli: argymell partner penodol. (*nodir y datganiadau hyn o dan 4.5 isod*).

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

### **2. Cofnodion cyfarfod 368 (11 Gorffennaf 2013) a materion yn codi**

#### **2.1 Cofnodion cyfarfod 368**

2.1.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 368

2.1.2 Cymeradwyodd yr Awdurdod y cofnodion.

#### **2.2 Materion yn codi**

2.2.1 Nodwyd y canlynol:

#### **2.2.2 Cofnodion cyfarfod 367**

Nodwyd y byddai Rhodri Talfan Davies yn mynychu cyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr i gyflwyno cynllun adleoli BBC Cymru i'r Awdurdod.

**2.2.3 Adroddiad Blynyddol 2012**

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol 2012 ar 17 Gorffennaf a chafwyd ymateb cytbwys i'r adroddiad yn y wasg.

**2.2.4 Y Gynhadledd Fawr**

Esboniodd IHJ bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystyried eu hymateb i'r Gynhadledd Fawr ac roedd yn gobeithio cyfarfod â nhw yn fuan er mwyn cyflwyno adborth i'w cynlluniau.

**2.2.5 Ansawdd ¾ - diweddariad**

Rhoddodd IHJ ddiweddariad am ansawdd gwasanaeth S4C ar Freeview. Nodwyd bod y gwasanaeth bellach yn cael ei ddarparu mewn ansawdd llawn ar Freeview a bod ansawdd y llun wedi gwella'n sylweddol.

**3. Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriwyd yn benodol at y mater canlynol.

**Ysgrifennydd Gwladol Cymru**

Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi cyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar 11 Medi. Nodwyd y bydd swyddogion Swyddfa Cymru yn ceisio trefnu cyfarfod gydag Ysgrifennydd Gwladol DCMS cyn diwedd y flwyddyn.

**4. Adroddiad y Prif Weithredwr**

4.1 Cyflwynodd IHJ ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

**4.2 Y drefn gomisiynu**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd IHJ a DRh newidiadau i'r drefn gomisiynu. Bwriad y drefn oedd ceisio cynnig sefydlogrwydd hir dymor i'r sector gynhyrchu. Yn dilyn trafodaeth am oruchwyliaeth y drefn arfaethedig cymeradwyodd yr Awdurdod y newidiadau i'r drefn gomisiynu.]

**4.3 Adolygiad Ail-strwythuro**

[**Crynodeb:** Cafwyd diweddariad am ail-strwythuro gweithlu S4C. Cyflwynwyd newidiadau i'r Adran Gynnwys gyda'r bwriad o gryfhau'r mewnbwn strategol yn y broses gomisiynu.]

**4.4 Amserlen y Penwythnos – Medi 2014 ymlaen**

[**Crynodeb:** Er gwybodaeth cyflwynodd IHJ a DRh amserlen arfaethedig ar gyfer y penwythnos i'w darparu o fis Medi 2014. Croesawyd cyfeiriad strategol yr amserlen a phenderfynwyd y byddai'r Pwyllgor Cynnwys yn derbyn gwybodaeth bellach parthed cynlluniau manwl y ddarpariaeth yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd.]

#### 4.5 **Adleoli**

Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau oedd ag unrhyw ymwneud gyda'r sefydliadau oedd wedi cyflwyno cais i fod yn bartner ar gyfer adleoliad arfaethedig S4C i ddatgan eu diddordebau. Nodwyd y datganiadau canlynol:

HJ: Aelod o Fwrdd Ymgynghorol Pontio; Cymrodor Anrhydeddus Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor;

CB: wedi derbyn cynnig Doethuriaeth Anrhydeddus o Brifysgol Abertawe ac yn gwneud gwaith datblygol gyda'r Brifysgol;

AE: Yn gwneud gwaith ymgynghorol i Brifysgol Abertawe;

ECS: Cymrodor Anrhydeddus Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant; Athro Emeritws Prifysgol Aberystwyth; Aelod o Fwrdd Ymgynghorol Canolfan Celfyddydau Aberystwyth; Cyfarwyddwr Anweithredol Llywodraeth Cymru;

MWJ: Aelod o Gyngor Prifysgol Bangor;

GJ: Yn gwneud gwaith ymgynghorol i Brifysgol Abertawe.

IHJ: Cymrodor Anrhydeddus Prifysgol Aberystwyth

[**Crynodeb:** Cyflwynodd GLL adroddiad y Grŵp Prosiect. Ar ôl asesu'r deuddeg cais lluniwyd rhestr fer o bedwar cais. Eglurwyd y drefn marcio ar gyfer y pedwar a thrafodwyd rhai o'r marciau a'r rhesymeg drostynt. Bwriad y Tîm Rheoli oedd cyhoeddi'r camau nesaf i'r pedwar grŵp ac i'r staff y bore trannoeth.]

#### 4.6 **Materion Personél**

[**Crynodeb:** Trafodwyd mater personél.]

#### 4.7 **Ystâd S4C - Adeilad Lambourne Crescent**

[**Crynodeb:** Eglurwyd y sefyllfa bresennol a thrafodwyd dyfodol adeilad Lambourne Crescent.]

#### 4.8 **Strategaeth a chyflwyniad masnachol**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd DB strategaeth fasnachol newydd S4C, gan gynnwys amcanion y grŵp masnachol a fframwaith ar gyfer ystyried buddsoddiadau a phrosiectau.]

#### 4.9 **Delwedd S4C**

Nodwyd bod y swyddogion yn y broses o ystyried diweddarau delwedd S4C a bwriedir cyflwyno cynlluniau i'r Awdurdod maes o law.

#### 5. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd DRh ei adroddiad ysgrifenedig gan drafod Drama a Digwyddiadau. Nodwyd bod y Pwyllgor Cynnwys wedi trafod darpariaeth Digwyddiadau yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi.]

6. **Adroddiad Ymchwil Misol**

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd yr Adroddiad Ymchwil Misol.]

7. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu**

Nodwyd adroddiad y Cyfarwyddwyr Cyfathrebu.

8. **Adroddiad Ariannol**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd KM yr adroddiad ariannol. Yn unol â pholisi arbedion effeithlonrwydd yr Awdurdod, cymeradwywyd neilltuo'r arbedion i'r gyllideb cynnwys. Cafwyd diweddariad am y cynllun pum mlynedd. Roedd y DCMS wedi cynnig nifer o opsiynau ar gyfer newid blwyddyn ariannol S4C.]

9. **Adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys**

Nodwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 10 Medi.

10. **Adroddiad o'r Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth**

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth ddoe'r 18 Medi. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Awdurdod yn ei gyfarfod nesaf.

11. **Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth a Gwifren Gwylwyr**

Cyflwynwyd yr adroddiad cwynion.

Nodwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr.

12. **Cymeradwyo amserlen asesu perfformiad gwasanaethau S4C ar gyfer 2013 o dan y Cytundeb Gweithredu**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd PW amserlen arfaethedig ar gyfer yr asesiad gan esbonio cefndir y broses. Nodwyd bod y Pwyllgor Cynnwys wedi trafod y mater ac yn dilyn arweiniad y pwyllgor a'r drafodaeth yn yr Awdurdod cymeradwywyd yr amserlen a'r argymhelliad i baratoi adroddiad interim ar gyfer Ymddiriedolaeth y BBC.]

13. **Cymeradwyo dyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod ar gyfer 2014**

Cyflwynwyd dyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod ar gyfer 2014 a gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu â SJP os oedd unrhyw anhawster gyda'r dyddiadau a argymhellwyd.

14. **Rhaglen Waith yr Awdurdod 2013-14**

Nodwyd bod y Cadeirydd a Chadeiryddion Pwyllgorau'r Awdurdod yn ystyried rhaglen waith yr Awdurdod ar gyfer 2014 a bydd rhaglen waith ddrafft yn cael ei darparu cyn diwedd y flwyddyn.

15. **Unrhyw fater arall** - Nodwyd bod Suzanna Taverne, aelod o Ymddiriedolaeth y BBC, wedi ymweld ag S4C ar 5 Medi i gyfarfod Glenda Jones, Elin Morris a Phil

Williams. Roedd yn gyfarfod positif ac adeiladol a chafwyd cyfle i drafod nifer o faterion yn ymwneud ag S4C a heriau'r dyfodol.

16. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 17 Hydref 2013 yng Nghaerdydd.